

## Darlun

Ceudwll yn llawn llwch  
Lleithder a thywyllwch  
Craig arw, oerlas  
Ac wedi ei gadwyno iddi –fel pe'n gaethwas-  
Gŵr ifanc glandeg, yn henwr cyn ei bedwardeg

Corff cryf a thalcen crych-  
Yn canolbwyntio  
Yn welw ei wyneb a dwy lygaid lwydlas yn pefrio.  
Cap fflat, esgidiau hoelion a dillad geirwon sydd amdano:  
Llwyd ydynt fel lludw,  
Fel y llechfaen a ddygodd ei anadl o.

Turio twll a wna i hollti'r graig yn glytiau  
Y mae'n ei hadnabod fel y petaen nhw'n hen ffrindiau  
Ei ddawn a'i ddygnwch, ni ellir eu hamau  
Gyda'r tywyllwch dudew yn dyfalbarhau  
ym mron fy hen daid  
a hynny hyd at angau.

**Gan Tomos**